

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd gan ddefnyddio platform ffôn/fideo gynadleda Zoom nos Lun, 14 Medi 2020 am 7pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdale [Is-gadeirydd], David Baker, Bob Barton, Wini Davies, Owen Evans, Tim Faire, Osian Owen, Ceri Ranson [rhan olaf y cyfarfod], Steve Whipp ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL – 4 aelod o'r cyhoedd

YMDDIHEURIADAU – Dim

RHAN 1

691 DATGAN BUDDIANNAU Y Cynghorydd David Baker fel aelod o Gyngor Egwyls Llanfair ac ymgeisydd cynllunio [cyfeirnod 20/2020/0584] a'r Cynghorydd Keith Mouldsdale fel ymddiriedolwr Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor a golygydd Cronicl Dyffryn Clwyd.

692 COFNODION – PENDERFYNWYD

Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2020 a'u llofnodi fel cofnodion cywir, yn ddarostyngedig i ychwanegu fod y Cynghorydd Bob Barton wedi darparu diweddariad ynghylch darpariaeth band eang, argaeledd grantiau a lansio cylchlythyr Llanbedr DC, a oedd yn cynnwys erthygl yn nodi'r diweddaraif ynghylch band eang.

693 MATERION CYMUNEDOL

693.1 Safle ysgol flaenorol Llanfair DC Cynhaliwyd cyfarfod ar y safle ar 29/07/20 gyda swyddogion Cyngor Sir Ddinbych [Bryn Williams [Rheoli Asedau] a Joe Griffiths [Moderneiddio Addysg]. Roedd y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Steve Whipp yn bresennol, ynghyd â'r Clerc]. Rhoddodd hyn y cyfle i ymweld ag adeilad yr hen ysgol a'r cae chwarae fel rhan o'r broses trafod y posibilrwydd o drosglwyddo ased i'r gymuned a/neu ddewisiadau eraill. Cytunodd Bryn Williams y byddai'n casglu gwybodaeth am y costau/gorbenion cyfredol, p'un ai oes unrhyw gyfamodau sy'n cyfyngu ar ddefnydd y safle [anfonwyd manylion y costau ac adroddiad ar weithred y safle], manylion am berchnogaeth coed a ffiniau ac ati cyn cynnal cyfarfod cyhoeddus y mae'r Cyngor Cymuned yn gobeithio ei gynnal pan fo cyfyngiadau Covid yn caniatáu hynny.

Cytunodd y Cynghorydd Steve Whipp gysylltu gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru ynghylch ardal yr hen gae chwarae a chynigiodd Joe Griffiths greu fideo yn dangos cynllun gosod mewnol yr adeilad [darparwyd copi i'r Clerc]. Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru wedi mynegi diddordeb a byddai'n hoffi edrych yn fanylach ar y safle. Mae'r awgrymiadau dechreuol ar gyfer gwella cynefinoedd yn cynnwys dolydd blodau gwylt / perllan gymunedol / cynefinoedd cyrion coedwig gyda lle cynnau blodau gwylt / plannu gwrychoedd / ardaloedd chwarae gwylt i enwi rhai. Byddai llwyddiant unrhyw rai o'r awgrymiadau hyn yn dibynnu'n gyfangwbl ar gynnal a chadw'r safle'n y dyfodol. Mae hwn yn bwynt arwyddocaol iawn i'w ystyried ar y cam cynnar hwn.

Mae cymdeithas dai yng Ngogledd Cymru wedi gofyn a fyddai unrhyw gyfleoedd iddynt weithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor Cymuned. Mae'r Cynghorydd Whipp hefyd wedi draftio papur camau allweddol y daith ddatblygu.

Roedd y trafodaethau yng nghyfarfod y Cyngor ar 14/09/20 yn canolbwyntio ar ystyried pob posibilrwydd, canfod eraill a allai fod â diddordeb mewn ymwneud â chynllun penodol, cysylltu'r cynllun gyda'r elusendai a datblygiadau eraill, trefnu digwyddiad ymgynghori gyda'r Cyngor, dod i benderfyniad ynghylch beth i'w wneud gyda'r tir a chanfod datrysiad cyfannol, llunio achos busnes, llunio ceisiadau am gyllid, adnabod gwirfoddolwyr/grwpiau i fwrw ymlaen â phrosiectau cymunedol. Awgrymwyd oedi'r broses am 12-18 mis [oherwydd Covid] ond roedd eraill o'r farn y dylid manteisio ar y cyfle yn awr i lunio achos o blaid trosglwyddo'r ased; ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal cyfarfod agored i'r gymuned gyflwyno syniadau ac yna gysylltu gyda'r gymdeithas dai. Mynegodd y Cadeirydd bryder fod cyn lleied o bobl wedi mynegi eu diddordeb neu eu cymorth ar hyn o bryd – roedd ymgysylltiad ac ymrwymiad y gymuned yn allweddol i lwyddiant y cynllun. Cynigiodd y Cynghorydd Bob Barton gynorthwyo gyda'r broses.

PENDERFYNWYD [a] y byddai'r Cynghorydd Steve Whipp a Mr Phil Bennett-Lloyd yn gweithio ar drosolwg i'w gyflwyno mewn cyfarfod agored, yn cynnwys nodi pa gyllid potensial fyddai ar gael, [b] fod y Cadeirydd a'r Clerc yn ymchwilio i ddichonoldeb cynnal digwyddiad agored i'r cyhoedd alw heibio neu gyfarfod agored ar-lein i alluogi pobl gyflwyno eu sylwadau, [c] y byddai'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Steve Whipp a'r Clerc yn penderfynu ar ddyddiad a [ch] cynghori'r gymdeithas dai fod y Cyngor yn bwriadu cynnal cyfarfod agored.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Steve Whipp a Mr Phil Bennett-Lloyd am eu hymdrechion hyd yma.

693.2 Nwy prif gyflenwad Adroddwyd fod y Clerc wedi derbyn copi o llythyr dyddiedig 13/08/20 a anfonwyd gan gwmni Wales & West Utilities [WWU] at drigolion yn esbonio fod cyfle i gartrefi yn y pentref gysylltu i estyniad newydd y rhwydwaith nwy unwaith y bo wedi'i gwblhau. Roedd y llythyr yn cynnwys manylion costau'r gyllideb ar sail niferoedd yr eiddo'n gysylltiedig â'r prosiect. Roedd gofyn i unrhyw un sy'n dymuno manteisio ar hyn gofrestru eu diddordeb mewn cael cyflenwad nwy lenwi a dychwelyd ffurflen cyn pen 28 diwrnod [nawr wedi'i ymestyn ar adeg llunio'r cofnodion]. Roedd y Clerc wedi anfon llythyr i WWU i holi â gysylltwyd gyda Thai Sir Ddinbych a chymdeithas dai Grŵp Cynefin i ganfod a oedd ganddynt ddiddordeb yn y cynllun. Roedd preswlydd wedi mynegi pryder fod y costau'n ymddangos yn uchel mewn cymhariaeth gyda'r ffigurau dechreuol a ddarparwyd tair i bedair blynedd yn ôl. Adroddwyd hefyd fod Darren Millar, Aelod Cynulliad, yn annog trigolion i fynegi diddordeb yn y cynllun.

Roedd WWU wedi ateb fel â ganlyn - [a] bydd WWU yn anfon llythyr i gymdeithas tai Grŵp Cynefin i weld â oes ganddynt diddordeb [mae'r gymdeithas dai wedi cysylltu gyda'r Gymdeithas Elusendai ynghylch cyllid cyffredinol i uwchraddio elusendai Elizabeth Owen].

[b] Costau: Roedd y dyfynbris gwreiddiol yn 2018 yn cynnwys eiddo'r datblygiad newydd, felly roedd rhychwant yr eiddo y rhannwyd cyfanswm y gost rhyngddynt yn fwy o'i gymharu gyda'r dyfynbris a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, nad oedd yn cynnwys y datblygiad newydd. Penderfynodd WWU wneud y llywodraethwyr yn fwy a gosod pibell prif gyflenwad petroliwm hylifol ochr yn ochr â'r bibell nwy ar gost y cwmni i ddarparu cyflenwad i'r pentref yn ddiweddarach. Roedd hwn yn fuddsoddiad gan WWU a gymeradwywyd cyn belled ag y bo'r costau'n cael eu hadfer trwy gynllun mewnlenwi.

[c] Diddordeb cyfredol yn y cynllun: Hyd yma mae Cyngor Sir Ddinbych, sy'n berchen ar 25 eiddo, wedi mynegi diddordeb a derbyniwyd ffurflenni mynegi diddordeb gan 6 preswlydd preifat.

PENDERFYNWYD [a] cyhoeddi gwybodaeth am grantiau ar wefan y Cyngor, [b] cysylltu gyda Darren Millar, Aelod Cynulliad a Nathan Taylor, WWU, gyda'r nod o drefnu cyfarfod.

694 GOHEBIAETH

694.1 Cyflwynwyd neges e-bost dyddiedig 20/08/20 gan Bennaeth Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynghylch darpariaeth graean ar ffyrdd gwledig yn Sir Ddinbych. Ni fydd yr adran yn gosod pentyrau graean ar ffyrdd sydd eisoes ar lonydd graenu safonol gan fod hyn yn cael ei ystyried yn wastraffus ac yn dyblygu ymdrechion. Y bwriad yw parhau i sicrhau fod ffyrdd gwledig â'r cyfleusterau i raeau ellydd a throeon os yw'r asesiad yn dangos fod angen hynny. Defnyddir cistiau graean i storio'r graean yn hytrach na'i bentyru'n uniongyrchol ar ochr y ffyrdd. Mae'r broses o osod cistiau graean yn digwydd a bydd yn cymryd amser i'w gwblhau.

PENDERFYNWYD hysbysu Cyngor Sir Ddinbych lle mae'n rhaid gosod cistiau graean cyn misoedd y gaeaf – y Cynghorwyr i hysbysu'r Clerc.

694.2 Cyflwynwyd – Neges e-bost dyddiedig 01/09/20 gan Unllais Cymru ynghylch canllawiau i Gynghorau o ran cynnal cyfarfodydd ffisegol. Nodwyd. Gallai cyfarwyddiadau'r Llywodraeth ar adeg llunio'r cofnodion [dim mwy na 6 unigolyn i gyfarfod dan do] olygu y byddai'n rhaid i gyfarfodydd ar-lein barhau am y dyfodol rhagweladwy, tan ddiwedd y flwyddyn o leiaf.

695 Adborth/Adroddiad[au] o Gynadleddau/Hyfforddiant/Cyfarfodydd -

695.1 Band eang – adroddodd y Cynghorydd Bob Barton eto ynghylch y datblygiadau a'r grantiau ar gael ar gyfer uwchraddio cysylltiad band eang, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei fod yn cyfateb y grantiau sydd ar gael gan y Cynllun Talebau Band Eang Gigabit, gan ddyblu ei werth. Mae'r gronfa hon yn cefnogi cost gosod band eang sy'n medru darparu band eang â'r gallu i ddarparu cyflymder gigabit i gartrefi a busnesau yn yr ardaloedd gwledig anoddaf i'w cyrraedd pan yn rhan o gynllun grŵp. Mae hyn wedi arwain at lansiad llwyddiannus prosiect band eang ffibr llawn Cyngor Cymuned Llanbedr DC. Dywedodd y Cynghorydd Barton ei fod yn dymuno gwneud yr un modd ar gyfer cymuned Llanfair DC. Bydd yn paratoi taflen i'w dosbarthu gyda rhifyn nesaf Cronicl Dyffryn Clwyd. Anfonodd y Cynghorydd Barton fanylion at y Cynghorwyr ar 14/09/20 i gael eu sylwadau [ymatebion i'w hanfon at y Clerc] – mae arno angen canfod beth sydd ar gael ar hyn o bryd ar draws ardal y gymuned. Gorffennodd trwy ddweud ei fod yn fodlon codi hyn fel eitem yng nghyfarfodydd Unllais Cymru petai'r Cynghorwyr yn dymuno hynny.

696 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

Cadarnhawyd y gweithredu o ran ymatebion rhwng cyfarfodydd fel a ganlyn:

696.1 Cais 20/2020/0395 a gyflwynwyd gan Rachel Davies ac Alun Lewis – dymchwel y garej presennol, adeiladu estyniad deulawr ar yr ochr a chreu lle parcio ychwanegol - Silver Birches, Llanfair DC. Cynhaliwyd arolwg safle ar 24/07/20 gan ddau Gynghorydd yng nghyswllt y cais. Roedd yr ymgeisydd wedi cyflwyno cais yn flaenorol, cyfeirnod 20/2019/0510, i dorri pum coeden yn yr ardal gadwraeth, a gymeradwywyd ar 28 Awst 2019. Esboniwyd mai arfer y Cyngor Cymuned oedd cynnal ymweliadau safle yn achos cynigion sensitif neu gymhleth er mwyn darparu ymateb gwybodus i'r ymgynghori gan yr awdurdod cynllunio, Cyngor Sir Ddinbych.

Roedd cynnal yr ymweliad wedi bod yn ddefnyddiol gan ei fod wedi galluogi gweld gorffeniadau'r tŷ a'r estyniad arfaethedig. Nodwyd y bydd angen adleoli draeniad y to a phibell dŵr glaw er mwyn gwneud lle i'r estyniad arfaethedig. Nodwyd hefyd fod yr ymgeisydd yn bwriadu gosod blwch ystlumod fel rhan o'r gwaith llunio'r estyniad.

Roedd yr ymgeisydd wedi cynghori fod nifer o goed wedi gorfod cael eu torri, yn ychwanegol at y rhai y cymeradwywyd eu torri, er mwyn gwneud lle i'r gwaith ar yr estyniad arfaethedig ond sicrhodd y byddai'r rhain yn cael eu hadnewyddu gan yr ymgeisydd unwaith y bo'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau. Roedd wal a oedd yn amgylchynu rhan o ardd eiddo cyfagos wedi'i dynnu i lawr ac roedd wal bren wrthi'n cael ei gosod.

Casgliad – cefnogi'r cais. Argymhellwyd hefyd gynnal ymweliad dilynol ar ryw bwynt yn y dyfodol, unwaith y bo'r gwaith wedi'i gwblhau, i sicrhau fod coed wedi'u plannu yn unol â'r cais blaenorol 20/2019/0510.

696.2 Cais 20/2020/0530 a gyflwynwyd gan Miss Tanya Reaich i adeiladu ystafell ardd a gosod tanc carthion yn Graig Cottage, Graigadwywynt. Cefnogwyd y cais, yn ddarostyngedig i ymholiad ynghylch yr ystafell ardd, os oedd cyfleustodau ac offer domestig yno, toiled ac ati, byddai angen sicrhau fod hynny'n cydymffurfio gyda rheoliadau adeiladu.

696.3 Cais 20/2020/0552 a gyflwynwyd gan Mr a Mrs S Williams i ddymchwel yr annedd presennol ac adeiladu annedd newydd, ffurfio cwrtil preswyl newydd, gosod pecyn trin carthion a gwaith cysylltiedig ym Mron Bach, Graigfechan. Cefnogwyd, yn ddarostyngedig i ystyried ymholiadau ynghylch llifogydd, goleuo, cyflenwad pŵer ac ati, fel a ganlyn.

Nodwyd fod y cais arfaethedig yn fwy na'r annedd sy'n bodoli, a bod yr arddull a'r gweddlluniau arfaethedig yn hollol wahanol, sef tŷ Sioraidd pedair ystafell wely yn lle adeilad llawer llai, amaethyddol yr olwg, a allai fod yn amlwg iawn yn y tirlun. Serch hynny, mae'r dyluniad wedi'i ystyried o ran sut y bydd yn gweddu i'r ardal leol ac yn darparu ar gyfer y teulu a chenedlaethau'r dyfodol. Bydd yr eiddo'n cyfyngu ar yr effaith gweledol ar y cymdogion.

Nodir y bydd yr adeilad sy'n bodoli yn cael ei ddychwelyd i dir ffermio naturiol ac y cynhwysir system casglu dŵr glaw. Byddai'n dda cael gwybod sut y byddant yn gwresogi ac yn darparu ynni i'r cartref, er enghraifft, paneli solar neu bwmp gwres o'r ddaear. Mae angen cyflwyno manylion y goleuadau allanol, gan fod hyn yn bwynt a godwyd ar gyfer ceisiadau eraill yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gan mai'r nod yw sicrhau awyr dywyll dros yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Dangosir y

dreif i'r adeilad fel gwastraff llechi a fyddai'n athraidd ac nid oes unrhyw ddisgrifiad o ran y lle parcio yn y tu blaen a byddai'n briodol i hwn fod yn athraidd hefyd.

Bu problemau draeniad dŵr arwyneb ychydig i lawr yr afon o'r safle hwn yng Nghraigfechan a byddai unrhyw gynnydd yn yr arwynebedd anathraidd yn gwaethygu'r sefyllfa. Ymddengys, fodd bynnag, o ran lle y bwriedir lleoli'r annedd fod y tir yn disgyn yn naturiol oddi wrth y ffrwd fechan yn y blaen. Gan y bydd angen pibellau i gael y dŵr i'r ffrwd mae'n gyfle da i reoli'r llif petai angen. Mae Rheolwr Llifogydd Cyngor Sir Ddinbych yn ymwybodol o'r problemau ac yn ymchwilio i hyn.

Derbyniwyd manylion cais diwygiedig ar 09/09/20.

PENDERFYNWYD anfon cais i'r Adran Gynllunio yn nodi fod yr aelodau'n falch o ddeall fod yr ymholiadau a'r materion a godwyd ganddynt ynghylch y cais gwreiddiol wedi cael sylw.

696.4 Cais 20/2020/0575 a gyflwynwyd gan Mr B Alldred i godi estyniad ochr unllawr yn lle'r garej presennol yng Nghaer Wyn, Graigfechan. Cefnogwyd – dim materion wedi'u codi.

696.5 Cais 20/2020/0569 a gyflwynwyd gan Mrs Miranda Dechazal i uwchraddio anecs sy'n bodoli eisoes sy'n gwasanaethu'r prif annedd, yn cynnwys adnewyddu'r drysau a'r ffenestri, gosod ffenestri yn y to, ffurfio agoriadau ffenestri newydd, addasiadau mewnol a gwaith cysylltiedig [cais Adeilad Rhestredig] ym Mhlas Newydd, Llanfair DC. Cefnogwyd – dim gwrthwynebiad. Ymddengys fod angen atgyweirio'r adeilad ac y gwnaiff ddirywio ymhellach os yw'n cael ei adael. Er mwyn ei gadw mae angen ei uwchraddio ac mae'r cynlluniau hyn yn ei foderneiddio i'r safonau cyfredol. Gobeithio y bydd hyn yn cadw'r adeilad am lawer o flynyddoedd i ddod.

696.6 Cais 20/2020/0584 a gyflwynwyd gan Mr David Baker ynghylch manylion mynediad, edrychiad, tirlunio, cynllun gosod a graddfa annedd a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 1 caniatâd cynllunio amlinellol cyfeirnod 20/2019/0884 – tir nesaf at Fwllch y Llyn, Pentrecoch. Cefnogwyd – dim gwrthwynebiad.

Ystyriwyd y ceisiadau a ganlyn yn y cyfarfod:

696.7 Cais 20/2020/0605 a gyflwynwyd gan Mr a Mrs Peter a Hilary ynghylch amrywio amod rhif 3 caniatâd cynllunio cyfeirnod 20/2016/0979 i ganiatáu i'r cyflenwad dŵr fod o ffynhonnell a rennir - Eyarth Hall, Llanfair DC

PENDERFYNWYD cefnogi'r cais.

696.8 Cais 20/2020/0545 a gyflwynwyd gan Mr Aled Mosford ynghylch adeiladu estyniad i adeilad amaethyddol sy'n bodoli ar gyfer storio porthiant a pheiriannau, yn cynnwys llecyn caled a gwaith cysylltiedig – tir nesaf at Tŷ Terfyn, Llanfair DC

PENDERFYNWYD cefnogi'r cais.

696.9 Cais 20/2020/0655 a gyflwynwyd gan Mr a Mrs C Rawes ynghylch dymchwel y garej sy'n bodoli ac adeiladu garej newydd yn cynnwys storfa ac ystafell ardd – Ffolt,

Llanfair DC. Hysbysodd y Clerc fod y cais wedi'i dderbyn ar 11/09/20 – yn rhy hwyr i'w roi ar yr agenda – byddai'r manylion yn cael eu hanfon at y Cynghorwyr trwy e-bost i gael eu sylwadau cyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

696.10 Cynllun Datblygu Lleol PENDERFYNWYD fod y Clerc i ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych i holi am ddiweddariad ynghylch llunio'r Cynllun newydd.

697 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

697.1 Goryrru [684.1] Ymateb trwy e-bost dyddiedig 31/07/20 a dderbyniwyd gan Uwch Beiriannydd, Diogelwch y Ffyrdd a Chludiant Cynaliadwy Cyngor Sir Ddinbych, mewn ymateb i'r ymholiadau -

[a] Graigfechan – Arwydd a weithredir gan symudiad cerbydau – edrychwyd ar y data cyflymder cyn ac ar ôl gosod yr arwydd, o 2017 a 2020; cynhaliwyd yr arolygon ger Caer Efail; cyflymder 85% o'r cerbydau oedd 29.5 milltir yr awr yn 2017 a 29.5 milltir yr awr yn 2020. Mae'r data hwn yn darparu tystiolaeth gref nad oes problem goryrru yng nghanol y pentref. Fodd bynnag, mae tua milltir o ffordd o ffin ogleddol y pentref i ganol y pentref ac mae'n debygol y bydd cyflymderau gwahanol, ac uwch o bosibl, ar wahanol bwyntiau ar hyd y ffordd. O gofio hyn byddai'n ddefnyddiol gwybod lle mae'r preswylwyr sy'n pryderu am y broblem yn byw, fel y gellir cynnal arolygon mewn gwahanol leoliadau. **PENDERFYNWYD** y byddai'r Cynghorydd Osian Owen yn anfon rhestr eiddo at y Clerc i'w cynnwys ynghyd â chroesffordd yr Efail. Ychwanegodd y Cynghorydd Steve Whipp y byddai gwirfoddolwyr gwyllo cyflymder ar gael mewn gwahanol fannau yn y pentref.

[b] Llwybr troed ar hyd yr A525 Llanfair i Rhuthun – mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer teithio egnïol wedi'i flaenoriaethu ar gyfer llwybrau mewn ardaloedd trefol ar hyn o bryd. Yn anffodus, nid oes fawr o argoel cael swm arwyddocaol o gyllid ar gyfer gwelliannau mewn cymunedau gwledig ar hyn o bryd. Mynegodd yr aelodau eu siom a chytunwyd y dylid cysylltu gydag Arweinydd y Cyngor a Darren Millar, AC.

[c] Arwyddion 20 milltir yr awr – mae arwyddion duon yn rhai cynghori a rhai coch yn golygu terfyn cyflymder gorfodol.

[ch] Bwlch Nant y Garth – mae'r cyfnod ymgynghori gorfodol gyda'r Heddlu wedi darfod a'r camau nesaf fydd hysbysebu Gorchmynion Rheoli Traffig ar y safle yn y deufis nesaf am gyfnod o 28 diwrnod. Os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau gellir cyflwyno'r cyfyngiad cyflymder 40 milltir yr awr newydd yn gymharol sydyn.

Yn y cyfamser mae trigolion lleol yn parhau i gwyno am gyflymder gormodol / digwyddiadau / damweiniau ar yr A525 heibio Llysfasi ac ymlaen i Fwlch Nant y Garth. Gwnaed sylwadau ers blynnyddoedd fod angen llinellau gwyn dwbl ger y coleg. Yn anffodus, mae gwelliannau mewn cymunedau gerllaw a ffyrdd eraill wedi symud y broblem i Ddyffryn Clwyd, lle mae pobl yn teimlo mai dyma'r lle olaf y medrant yrru'n gyflym. **PENDERFYNWYD** [a] cyflwyno cais ffurfiol i Gyngor Sir Ddinbych am linellau

gwyn dwbl ar y ffordd wrth Llysfasi a [b] parhau i fonitro sŵn [sy'n broblem benodol] a goryrru.

697.2 Materion Llifogydd Adroddwyd fod criw o drigolion sy'n byw yng nghyffiniau Graigadwywynt/Pont Eyarth/croesffordd Llanfair wedi cysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Rheolwr Llifogydd Cyngor Sir Ddinbych ynghylch eu pryderon a galw am weithredu i ddatrys y problemau llifogydd yn yr ardal. Dywedodd y Cyngorydd Steve Whipp ei fod ef a Mr Phil Bennett-Lloyd eisoes wedi ymgymryd â'r rôl o dynnu sylw at fannau gyda phroblemau yn y gymuned – cyfeiriodd hefyd at gynlluniau Llywodraeth Cymru i arafu llif y dŵr i lawr yr afon a ffyrdd eraill o reoli'r risg llifogydd.

697.3 Coed / Llwyni Adroddwyd fod y coed a blannwyd yn y man agored ym Mron y Clwyd yn gynharach yn y flwyddyn yn marw ac angen sylw. **PENDERFYNWYD** y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych ynghylch hyn.

698 MATERION ARIANNOL

698.1 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:
£222.00 Sandra Williams [Gwasanaeth Cyfieithu – Tudalen GDPR ar gyfer y wefan a chofnodion 09/03/20]
£125.45 Sandra Williams [Gwasanaeth Cyfieithu – cofnodion 15/06/20]
£137.50 A5pc./com [Gwasanaeth Cymorth Cyfrifiadurol]

698.2 Ceisiadau am Gymorth Ariannol PENDERFYNWYD dyfarnu grantiau fel a ganlyn:
£800.00 Cronicl Dyffryn Clwyd [costau cynnal y cylchgrawn]
£200.00 Apêl Pabi Coch y Lleng Brydeinig

698.3 Hysbysfyrddau'r Cyngor Adroddodd y Clerc nad oedd gan benaethiaid y ddwy ysgol, Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn, unrhyw wrthwynebiad i osod hysbysfyrddau'r Cyngor ar ffens yr ysgol ger y mynedfeydd. **PENDERFYNWYD** awdurdodi'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc i adolygu'r hyn oedd yn ofynnol yn newydd a gadael yr hysbysfyrddau sy'n bodoli eisoes yn eu lle at ddefnydd y gymuned.

698.4 Diweddariad ynghylch y broses Archwilio Allanol

Roedd cwmni BDO wedi cadarnhau derbyn y ffurflen flynyddol a'r wybodaeth gysylltiedig. Fodd bynnag, bu'n rhaid diwygio'r hysbysiad hawliau etholwyr oherwydd cyfyngiadau cyfnod clo yn ystod Mehefin/Gorffennaf. Rhoddwyd hysbysiad diwygiedig gyda'r dyddiadau newydd ar hysbysfyrddau a gwefan y Cyngor erbyn 16/08/20. Derbyniwyd cais ychwanegol ar 25/08/20 i ddarparu manylion am leihad yn y derbyniadau a chynnydd yn y taliadau yn y datganiadau cyfrifyddu am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020. Anfonwyd ymateb i BDO ar 27/08/20 ynghyd â chopi i'r Cyngorwyr. Nodwyd.

RHAN 2 699 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitem a ganlyn:

700 GWAITH TRWSIO AC ATGYWEIRIO COFEB RHYFEL LLANFAIR DC

Adroddwyd y bydd y gwaith yn dechrau yn fuan ym mis Hydref – dyddiad pendant i'w gadarnhau fel y gellir trefnu yswiriant ychwanegol. Gofynnwyd am ddyfynbris i ychwanegu enw Robert James Rivers Fuller ar y Gofeb Rhyfel.

701 DYFARNIAD CYFLOG GWLADOL – GRADDFEYDD CYFLOG NEWYDD I GLERCOD

Cyflwynwyd graddfeydd cyflog newydd i Glercod a gytunwyd gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol yn weithredol o 1 Ebrill 2020. Adroddwyd fod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi cynnal yr arfarniad blynyddol ym mis Ebrill 2020. **PENDERFYNWYD** cynyddu cyflog y Clerc o £12.39 yr awr i £12.73 [Pwynt 17] yn weithredol o 1 Ebrill 2020 fel y cytunwyd gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol. Oriau'r Clerc i barhau ar 28 awr y mis a'r archeb sefydlog i'r darparwydd cyflogres i'w ddiwygio'n unol â'r penderfyniad hwn.

702 DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL

12/10/20 [cyfarfod ar-lein], 09/11/20 [cyfarfod ar-lein], 14/12/20 [cyfarfod ar-lein], 11/01/21 [Coleg Cambria Llysfasi], 08/02/21 [Ysgol Llanfair], 08/03/21 [Ysgol Pentrecelyn]

Gorffennodd y cyfarfod am 8.45pm.

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD